

ASTUDIAETH ACHOS

# Mel Parry

Ffotograffydd a dylunydd graffeg o Ynys Môn yw Mel Parry, a'i fusnes yn tua 75% o ffotograffiaeth a 25% dylunio graffig. Mae'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau ffotograffiaeth gan cynnwys priodasau a digwyddiadau yn yr ardal.

## Anghenion cysylltedd

Fel rhan o'i waith, yn enwedig gyda ffotograffiaeth digwyddiadau, mae Mel angen cysylltiad rhyngrwyd cyflym a dibynadwy sy'n ei alluogi e i uwchlwytho nifer fawr o ddelweddau ansawdd uchel dros gyfnod byr o amser. Mae ei incwm o ddigwyddiadau yn seiliedig ar werthiant ac mae'n dibynnu ar faint y gall ei uwchlwytho mor gyflym â phosib. Er enghraifft, roedd achos lle roedd rhaid iddo uwchlwytho tua 25,000 o ffeiliau o ansawdd uchel o fewn 24 awr.

Cyn hyn, wynebodd Mel heriau o ran gorlwytho'r rhwydwaith – pe bai llawer o declynnau yn y tŷ'n defnyddio'r rhyngrwyd, gan ddefnyddio llawer iawn o lled band ar yr un adeg, byddai'n effeithio ar gyflymder ei ryngrwyd. Ei ddatrysiad cychwynnol oedd cofrestru am gynllun band eang arall i'w fusnes.

Ei brif broblem yw dibynadwyedd cyflymder uwchlwytho gyda'r cynlluniau band eang. Weithiau bydd y cyflymder uwchlwytho rhwng 4-5 Mbps a fyddai'n iawn, ond gall ostwng i 0.25 Mbps ar rai dyddiau. Mae hyn yn annerbyniol iddo oherwydd ei fod yn arwain at golled ariannol I'w fusnes.

## Profion Starlink

Ar adeg ysgrifennu'r astudiaeth achos hwn, mae Mel wedi cael benthyg dysgl Starlink oddi wrth Menter Môn ar ôl gweld gwybodaeth amdanynt. Roedd Mel o'r farn fod Starlink yn hawdd iawn i'w osod: ar ôl rhoi'r dysgl yn yr ardd, canfu Mel ei fod yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd ar unwaith heb fod angen gosod unrhyw yrwyr meddalwedd. Mae'r cyflymder uwchlwytho o tua 15 Mbps yn ddigon cadarn i anghenion ei fusnes.

Er hynny, dim ond ar gyfer ei waith y mae Mel wedi bod yn defnyddio Starlink hyd yma. Mae'n gobeithio profi perfformiad Starlink pan fydd dyfeisiadau eraill yn ei dŷ'n ei ddefnyddio ar yr un adeg. Mae ganddo hefyd ddigwyddiad i ddod lle bydd disgwyl iddo uwchlwytho rhwng 7,000 a 8,000 o ddelweddau cydraniad uchel ar ei gyfer, felly bydd hwn yn brawf mawr o ran galluoedd Starlink.

> Roedd Starlink yn hawdd iawn i'w osod: ar ôl rhoi'r dysgl yn yr ardd, canfu Mel ei fod yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd ar unwaith heb fod angen gosod unrhyw yrwyr meddalwedd.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales
Conwy · Sir Ddinbych Denbighshire · Sir y Fflint Flintshire · Cyngor Gwynedd · Wrexham Wrecsam · Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU